@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff: Cronfa Chwaraeon yn y Gymuned 2025-26

Cafodd y Gronfa Chwaraeon yn y Gymuned ei chyflwyno dwy flynedd yn ôl yn dilyn ymgynghoriad â gwirfoddolwyr clybiau lleol. Gwnaeth nifer o bobl nodi anawsterau wrth dalu costau cychwynnol, ac mewn rhai achosion, nid oedd gan grwpiau'r strwythur ffurfiol oedd ei angen i gael mynediad at grantiau allanol. Cafodd y gronfa ei chreu i ddarparu cymorth ariannol hyblyg er mwyn ymateb yn brydlon i anghenion lleol. Rydyn ni hefyd yn defnyddio ein cynllun Achredu i helpu clybiau a grwpiau i gael mynediad at gyllid allanol mwy, megis y Gronfa Cymru Actif.

Eleni mae ein Cronfa Chwaraeon yn y Gymuned wedi chwarae rhan bwysig wrth gryfhau chwaraeon ar lawr gwlad. Mae'r gronfa wedi helpu clybiau a grwpiau cymunedol achrededig i ddechrau gweithgareddau newydd, datblygu'r ddarpariaeth bresennol a chynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ac ymarfer corff. Mae grantiau hyd at £500 wedi helpu i dalu costau hanfodol fel offer, llogi cyfleusterau, datblygu gwirfoddolwyr a marchnata. Mae'r gronfa wedi cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys clybiau chwaraeon traddodiadol a gweithgareddau hamdden fel pêl-droed cerdded, dychwelyd i bêl-rwyd a rygbi cyffwrdd.

Unwaith y bydd clwb/grŵp wedi'i achredu, rydyn ni'n darparu cymorth ymarferol, gan weithio'n uniongyrchol gyda'r clwb/grŵp i ddatblygu cynlluniau prosiect a chwblhau ceisiadau. Unwaith y bydd y cais wedi'i gymeradwyo, rydyn ni'n cynnig cymorth parhaus drwy gydol y broses o gyflwyno'r prosiect ac yn casglu adborth i fesur yr effaith ar y clwb a'r cyfranogwyr. Eleni mae'r Gronfa Chwaraeon yn y Gymuned wedi cefnogi 151 o glybiau a grwpiau cymunedol, ac o ganlyniad, mae mwy na 110 o sesiynau chwaraeon newydd wedi cychwyn. Yn ogystal, mae dros 260 o wirfoddolwyr wedi'u recriwtio neu'u hyfforddi, ac mae mwy na 1,700 o gyfranogwyr newydd wedi cymryd rhan.

Mae effaith y gronfa'n mynd y tu hwnt i gymorth ariannol. Drwy gefnogi gwirfoddolwyr, cryfhau clybiau/grwpiau cymunedol a chynyddu mynediad at chwaraeon, mae'r Gronfa Chwaraeon yn y Gymuned yn helpu mwy o bobl i wneud rhagor o ymarfer corff yn fwy aml.

> *"Mae'r cyllid wedi cael effaith enfawr ar ein clwb. Rydyn ni wedi gallu cynnig sesiynau hyfforddi i ysgolion a'r gymuned ehangach gyda'r offer a'r cyfleoedd hyfforddiant!"*
> Clwb Bowls 'Harlequins'

> *"Mae'r cyllid wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n sesiynau pêl-rwyd cerdded. Mae wedi ein helpu i ddarparu offer a chefnogi ein gwirfoddolwyr, gan ganiatáu i ragor o fenywod gadw'n heini, gwella eu hiechyd a gwneud ffrindiau newydd."*
> Clwb Pêl-rwyd Cerdded 'Warriors'

**£65,000** wedi'i ddyfarnu

**97%** wedi ymgysylltu ag aelodau/cyfranogwyr newydd

**80%** wedi recriwtio/hyfforddi gwirfoddolwyr

**151** o glybiau/grwpiau wedi'u hariannu

**66%** wedi cynnig cyfleoedd newydd

RHONDDA CYNON TAF

53434-15